Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Mae Bywydau Du o Bwys

11 Awst 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar **16 Gorffennaf**, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Gwasanaethau Gwybodaeth Senedd Cymru.*
*Dylid trin hwn fel cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.*

*A fyddech cystal â chadarnhau a yw unrhyw Aelodau o'r Senedd yn gefnogwyr neu'n aelodau o'r grŵp/mudiad/sefydliad ymgyrchu Mae Bywydau Du o Bwys?*

*Os oes, a fyddech cystal â chadarnhau ym mha rinwedd y maent yn ymwneud â'r grŵp? A ydynt yn dal unrhyw swydd o rym o fewn y grŵp ymgyrchu?*

Gweler yr ymateb isod.

Gallaf gadarnhau nad yw Comisiwn y Senedd yn cadw'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani.

Mae'n bosibl bod y wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani yn cael ei chadw mewn swyddfeydd Aelodau unigol o'r Senedd. Fel rheolwyr data ynddynt eu hunain, dylid anfon eich cais atynt yn uniongyrchol i gael ymateb. Fodd bynnag, cofiwch nad yw Aelodau o'r Senedd eu hunain yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac felly nid oes rheidrwydd arnynt i ddatgelu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani o dan y Ddeddf honno.

Mae manylion cyswllt Aelodau o'r Senedd ar gael ar wefan Comisiwn y Senedd:

**https://busnes.senedd.cymru/mgMemberIndex.aspx?bcr=1**#

Yn gywir


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF